



AMSER I SIARAD

Gad inni edrych ar lyfr

- Efallai nad yw'ch plentyn yn gallu darllen eto, ond maent wrth eu bodd yn edrych ar luniau, gwranddo arnoch chi, ac ymuno gyda llyfrau a straeon
- Peidiwch â phoeni am y geiriau i gyd - siaradwch am y lluniau. Neu dyfeisiwch eich stori eich hun i gyd-fynd â'r lluniau
- Mae eich plentyn wrth eu bodd yn clywed rhai o'u hoff straeon dro ar ôl tro. Dyna un ffordd iddynt ddysgu geiriau
- Bydd eich plentyn wrth eu bodd yn eich clywed yn gwneud lleisiau gwirion wrth adrodd stori

AMSER I SIARAD - Gad inni edrych ar lyfr

- Crëwch ofod stori clyd - cwtshys ar y sofffa, cornel dawel, stori amser gwely
- Dewch o hyd i amser arbennig bob dydd i edrych ar lyfr gyda'ch plentyn
- Rhowch gynnig ar stori sy'n odli. Wrth i'ch plentyn ddod yn gyfarwydd â'r stori, gadewch iddyn nhw ddarfod y brawddegau
- Beth am wneud blwch stori?
Defnyddiwch focs esgidiau, addurnwch ef ac ychwanegwch gymeriadau.
Dyfeisiwch stori gyda'ch plentyn.
Rhowch gynnig ar ddefnyddio lleisiau gwahanol i'r cymeriadau yn eich stori. Anogwch eich plentyn i ymuno.
Byddant wrth eu bodd!
- Ymunwch â'ch llyfrgell leol. Ewch i: www.conwy.gov.uk/Llyfrgelloedd er mwyn ymuno, a dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/LlyfrgelloeddConwy

AWGRYM GWYCH:

Peidiwch ag aros tan amser stori - mae geiriau ym mhobman!